

Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Cyllid Cyngor Cymuned Llandybie a gynhaliwyd yn Swyddfeydd y Cyngor, Stryd Fawr, Llandybie ar ddydd Llun, Medi 10^{fed}, 2018 am 6.30 yh

Presennol R.A. Davies – Is-Gadeirydd y Cyngor

Cynghorwyr Mrs Ll. Latham W.D. Evans Mrs K.D.L Davies
N. Evans D. Hopkins I. Rh. Llewelyn

Ymddiheuriadau

Cynghorwyr Mrs C. Thomas Mrs J.E. Collins

373.

Datgan Buddiant

Roedd yr Aelodau am ddatgan diddordeb yn yr amrywiol fudiadau y maent yn gysylltiedig â nhw, ac nid oeddent wedi cymryd rhan yn y trafodaethau a ddilynodd neu chwaith wedi pleidleisio ar y ceisiadau hyn. Llofnodwyd copïau o'r ffurflenni datgan, i'w cadw gan y Clerc. Derbyniwyd y datganiadau canlynol:

Y Cynghorydd R. A. Davies Archwilydd Eglwys Plwyf Llandybie
Archwilydd Cymdeithas Henoed a Phensiynwyr
Llandybie
Ysgrifennydd *Fields in Trust* Cymru, Llandybie
Ysgrifennydd a Thrysorydd Clwb Tennis Llandybie

Y Cynghorydd Ll. Latham Cyflogai Mudiad Meithrin
Y Cynghorydd D. Hopkins Is-Gadeirydd *Fields in Trust* Cymru, Llandybie

374.

Ceisiadau am gymorth ariannol

Yn unol â Chofnod 693/95, aeth y Pwyllgor ati i ystyried y ceisiadau canlynol am gymorth ariannol, a phenderfynu **argymell** i'r Cyngor fel a ganlyn:

Ceisiadau cyffredinol a ystyriwyd yn unol â darpariaethau'r Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, Adran 137 ac Adran 145

Enw'r mudiad	Swm a argymhellir
Canolfan Therapi Plant, Bobath Cymru	£200
Côr Merched Llandybie	£300
Clwb Ffermwyr Ifanc Llandybie	£300
Cymdeithas Henoed a Phensiynwyr Llandybie	£400
Eglwys y Plwyf, Llandybie – cynnal a chadw goleuadau'r Nadolig	£200
Eglwys y Plwyf, Saron	£500
Elusen Ambiwlans Awyr Cymru	£1000
Glo Môn	£200
Gofal mewn Galar - Cruse	£150

Grŵp 'Ifanc eu Hysbryd' Penygroes	£300
Llyfrau Llafar Cymru	£200
Cylch Meithrin Plant Bach Y Llan	£300

Argymhellion eraill

(i) Eglwys y Plwyf Llandybie - gwasanaeth i gloc y tŵr

Derbyniwyd cais am gymorth ariannol oddi wrth Eglwys y Plwyf, Llandybie ar gyfer gwasanaethu cloc y tŵr dan ddarpariaethau Deddf Eglwysi Plwyf 1957, Adran 2, ond fe ohiriwyd rhoi cymorth ariannol tan i gopi o wir gostau'r gwaith ar gloc y tŵr gael ei dderbyn.

(ii) Ffederasiwn Ffermwyr Ifanc Sir Gaerfyrddin

Derbyniwyd cais am gymorth ariannol oddi wrth Ffederasiwn Ffermwyr Ifanc Sir Gaerfyrddin. Cytunwyd cynnig grant i Ffermwyr Ifanc Llandybie ac **argymhellwyd** bod y cais hwn yn cael ei wrthod.

(iii) Shopmobility Caerfyrddin

Derbyniwyd cais oddiwrth Shopmobility Caerfyrddin. **Argymhellwyd** bod y cais hwn yn cael ei wrthod.

Ceisiadau gan neuaddau pentre, a ystyriwyd yn unol â darpariaethau'r Ddeddf Llywodraeth Leol 1976, Adran 19:

Neuadd Lesiant Penybanc	£625
Cymdeithas Lesiant Glowyr Cwmgwili	£625
Neuadd Goffa Gyhoeddus Llandybie	£1220

Ceisiadau gan glybiau chwaraeon / hamdden a ystyriwyd yn unol â darpariaethau'r Ddeddf Llywodraeth Leol 1976 (Darpariaethau Amrywiol), Adran 19:

Clwb Pêl-droed Caerbryn	£200
Clwb Bowlio Mat Byr Penygroes	£200
Clwb Bowlio Dan-do Dinefwr	£150
Clwb Rygbi Ieuenctid Llandybie	£300
Clwb Rygbi Ieuenctid Penybanc	£300
Clwb Tennis Llandybie	£300

Ceisiadau am gynnal a chadw manau chwarae a ystyriwyd yn unol â darpariaethau'r Ddeddf Llywodraeth Leol 1976 (Darpariaethau Amrywiol), Adran 19:

Cymdeithas Lesiant Glowyr Cwmgwili - gardd	£200
<i>Fields in Trust</i> Llandybie	£363.25

Ceisiadau tuag at gynnal a chadw claddfeydd, a ystyriwyd yn unol â'r Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, Adran 214.

Capel Jerusalem, Penygroes	£250
Soar, Capel y Bedyddwyr, Llandyfan	£250
Eglwys Efengylaidd Penygroes	£250
Eglwys Mynydd Sion, Penygroes	£250
Eglwys y Plwyf, Llandybie	£750

375.

Clwb Rygbi Penybanc – cae ymarfer yr ieuenctid

Derbyniwyd llythyr oddiwrth Clwb Rygbi Penybanc i hysbysu'r Aelodau o brosiect datblygu sy'n gweld y clwb rygbi yn cytundebu gyda Neuadd Lesiant Penybanc i gymryd prydles ar dir ger y cae rygbi presennol er mwyn greu cyfleuster chwarae ac hyfforddiant newydd i'r clwb a'r gymuned. Mae arian grant eisoes wedi'i dderbyn odiwrth rhai cyllidwyr, a bydd cyllidwyr eraill yn rhoi eu hymateb cyn diwedd mis Hydref. Bydd y prosiect hefyd yn ceisio datrys y problemau parcio difrifol ym Mhenybanc yn ystod sesiynau hyfforddiant ac adeg gemau rygbi.

Amcangyfrifir y bydd y prosiect llawn yn costu £65000, gydag arian grant posib o £35000 a chyfraniad o £2000 gan y clwb. Hysbyswyd yr Aelodau a oedd yn bresennol o dwf cyflym yr adran iau ym Mhenybanc, ac roedd rhaid gwella'r cyfleusterau os am gynnal y twf a welwyd. Mae gan y Clwb ystod llawn o grwpiau oedran iau, yn amrywio o Dan 6 i Dan 13, gydag aelodaeth iau o fwy na 100 o blant.

Er mwyn cwblhau'r prosiect ac i bontio'r diffyg cyllid, roedd y clwb wedi gofyn am gyfraniad o £25000 oddiwrth y Cyngor Cymuned. Roedd yr Aelodau wedi **argymell** cytuno ar y swm yma, yn amodol ar dderbyn tystiolaeth o'r cynigion cadarn oddiwrth y cyrff cyllido eraill.

Hefyd **argymhellwyd** bod y fath swm yn cael ei dynnu o'r gyllideb Datblygu Cymunedol am y flwyddyn gyfredol oherwydd bod tanwariant ar brosiectau, gan fod y costau amcangyfrifol wedi bod yn uwch na'r prisiau gwirioneddol

376.

Clwb Rygbi Llandybie – prosiect rygbi iau

Derbyniwyd llythyr odiwrth Gadeirydd Clwb Rygbi Llandybie i ofyn am gefnogaeth ariannol i helpu'r clwb osod goleuadau hyfforddi ar y cae top yng Nghlwb Rygbi Llandybie. Yn ystod y gaeaf diwethaf roedd yr amodau garw ar y cae chwarae *Fields in Trust* Cymru wedi golygu bod 80 o'r chwaraewyr iau wedi gweld eu sesiynau hyfforddiant a gemau yn cael eu canslo; byddai'r cae arall wedi caniatáu i'r chwaraewyr iau chwarae ond nid oes yno lifoleuadau. Derbyniwyd pris o £6000 i osod y goleuadau, gyda chyfraniad o £1000 ar gael gan y clwb rygbi.

Roedd yr Aelodau wedi **argymell** cynnig rhodd o £5000 i Glwb Rygbi Llandybie i helpu gyda'r gost o osod goleuadau hyfforddiant.

Yn ychwanegol, **argymhellwyd** bod y swm yma'n dod o'r gyllideb Datblygu Cymunedol.

377.

Cyflwyno'r Grantiau Ariannol

Er mwyn ceisio codi proffil y Cyngor Cymuned, **argymhellwyd** bod y grantiau a roddir i'r amrywiol fudiadau yn cael eu cyflwyno mewn seremoni wobrwyo mewn lleoliad lleol yn ystod mis Hydref. Roedd yr Aelodau yn gytûn bod angen mwy o gyhoeddusrwydd yn y wasg am waith y Cyngor, a'r cymorth ariannol a roddir i fudiadau lleol. Byddai hyn yn codi ymwybyddiaeth y gymuned o rôl y Cyngor yn yr ardal.

378.

Codi tâl am gyfleusterau sy'n eiddo i'r Cyngor.

Bydd y cyfnod di-dâl a gytunwyd gyda defnyddwyr y cyfleusterau sydd ym mherchnogaeth y Cyngor Cymuned yn dod i ben ar Fawrth 31^{ain}, 2018. Roedd yr Aelodau wedi derbyn manylion y costau a dalwyd hyd yn hyn i gynnal y cyfleusterau, ynghyd â manylion y ffioedd a dalwyd i Gyngor Sir Caerfyrddin cyn Trosglwyddo Asedau.

Argymhellwyd y dylid codi'r ffioedd a restrir isod am y cyfnod 1/4/2019 hyd at 31/3/2020.

Saron Juniors FC - £500 y flwyddyn am ddefnyddio'r cae chwarae a'r cyfleusterau ym Mharc Saron.

Clwb Bowlio Llandybïe - £3000 y flwyddyn am ddefnyddio'r grîn bowlio, a chyfraniad o £500 y flwyddyn am ddefnyddio'r pafiliwn.

Clwb Tennis Llandybïe – - £200 y flwyddyn a chyfraniad o £500 y flwyddyn am ddefnyddio'r pafiliwn.

Clwb Rygbi Penygroes - £500 y flwyddyn am ddefnyddio'r cae rygbi ym Mharc Penygroes.

Bydd defnydd o'r Ardaloedd Chwarae Aml-Ddefnydd (MUGA) yng Nghapel Hendre, Llandybïe a Phenygroes yn dal yn ddi-dâl i'r cyhoedd.

379.

Gan nad oedd unrhyw fusnes arall i'w drafod, daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 7.50 yh.